LANLEO19

Gwasanaethu ac atgyweirio cyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion ar y tir

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys gwasanaethu ac atgyweirio cyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion ar y tir ac mae'n cynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o osod a gweithredu'r cyfarpar a'r teclynnau.

Mae'n cynnwys nodi namau, dulliau atgyweirio, graddnodi a dilysu perfformiad. Gellir dod o hyd i'r cyfarpar sydd yn cael ei gynnwys yn un neu fwy o'r sectorau cysylltiedig canlynol o beirianneg ar y tir, e.e. amaethyddiaeth, garddwriaeth, amwynderau, gofal daear, coedyddiaeth a choedwigaeth.

Mae'r safon hon yn cynnwys y cyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion sydd yn cynnwys peiriannau a theclynnau ymgysylltu pridd a ddefnyddir i weithio'r pridd naill ai trwy gael eu gwthio neu eu tynnu. Gallai'r peiriannau a'r teclynnau gynnwys erydr, amaethwyr, graddwyr, holltwyr, gosod draeniad a phibau, neu beiriannau rholio a gweisg.

Cyfarpar sydd hefyd wedi ei gynnwys yn y safon hon yw peiriannau sydd wedi eu pweru gan siafft 'Power Take Off' (PTO) neu'n uniongyrchol o fotor sy'n darparu symudiadau cylchdroi neu ôl a blaen. Gallai peiriannau o'r fath gynnwys ogedau pŵer, tynwyr cerrig neu beiriannau a chyfarpar awyru pridd.

Mae peiriannau a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer drilio, plannu a dosbarthu deunyddiau at ddiben sefydlu cnydau (plannu) hefyd wedi eu cynnwys yn y safon hon. Gallai'r peiriannau a ddefnyddir fod yn gyfarpar gosod hadau/drilio.

Wrth weithio gyda pheiriannau neu gyfarpar dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen, yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Wrth weithio ar gerbydau trydan foltedd uchel (foltedd peryglus/HaV) mae'n rhaid i'r dadrymuso gael ei wneud gan berson sydd wedi cael hyfforddiant yn unol â gweithdrefnau'r cynhyrchydd.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn gweithio ym maes peirianneg ar y tir o dan oruchwyliaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. bod yn ymwybodol o beryglon ac asesu'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd a'r lleoliad lle bydd yn cael ei wneud
2. bod yn ymwybodol o'r effaith amgylcheddol bosibl sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd a ffyrdd y gellir rheoli hyn
3. dewis a gwisgo dillad addas a chyfarpar diogelu personol (PPE)
4. dewis, paratoi, defnyddio, cynnal a chadw a storio'r offer a'r cyfarpar sydd yn angenrheidiol i gyflawni'r gweithgaredd yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol, cyfarwyddiadau'r cynhyrchydd ac arferion y cwmni
5. sicrhau bod y cyfarpar ar y tir sydd angen ei wasanaethu a'i atgyweirio yn ddiogel, wedi ei baratoi a'i ynysu o ffynonellau pŵer lle bo angen
6. cymryd y rhagofalon angenrheidiol i atal cemegau, nwyon a sylweddau rhag dianc a lleihau'r perygl o halogiad a pheryglon lle bo angen
7. defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth ddiagnostig i nodi diffygion a namau
8. pennu'r gofynion ar gyfer gwasanaethu ac atgyweirio
9. nodi a sefydlu argaeledd cydrannau amnewid sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd
10. datgymalu, gwasanaethu/atgyweirio ac adfer cyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion a'u cydrannau yn unol â manylebau a safonau'r cynhyrchydd
11. symud ac amnewid cydrannau sydd wedi treulio a'u niweidio yn unol â chyfarwyddiadau a manylebau
12. gosod cyfarpar llusgo ac wedi ei osod i ryngwynebu â'r prif symudwr
13. graddnodi cyfraddau gosod a gofod rhwng planhigion ar gyfarpar sefydlu planhigion
14. gweithredu gosodiadau maes yn unol â manylebau'r cynhyrchydd a gofynion y cwsmer ar gyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion
15. defnyddio dulliau profi addas i asesu perfformiad y system wedi ei hailgydosod wrth gwblhau'r gwaith a chadarnhau ei bod yn perfformio yn unol â'r fanyleb weithredu cyn ei dychwelyd at y cwsmer
16. ailgylchu neu waredu'r mathau gwahanol o wastraff yn gynaliadwy, yn cynnwys gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus, a achoswyd gan y gweithgaredd, yn unol â gofynion cyfreithiol ac amgylcheddol perthnasol a pholisi'r cwmni
17. cwblhau cofnodion fel sydd yn ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol, gofynion

gwarant a gweithdrefnau’r cwmni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i nodi peryglon ac asesu risg wrth baratoi i wasanaethu ac atgyweirio cyfarpar ar y tir
2. y math o ddillad a chyfarpar diogelu personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3. yr offer a'r cyfarpar sydd yn ofynnol i wneud y gweithgaredd a sut i'w dewis, eu paratoi, eu defnyddio, eu cynnal a'u storio'n ofalus ac yn gywir, yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchydd ac arferion y cwmni
4. y gofynion cyfreithiol perthnasol ar gyfer paratoi a defnyddio'r cyfarpar gwaith
5. y dulliau o baratoi cyfarpar ar y tir ar gyfer ei wasanaethu a'i atgyweirio
6. y peryglon sydd yn cael eu creu gan egni wedi ei storio a'r ffordd y dylid ymateb i'r rhain yn ystod y cofnod paratoi
7. y cemegau, y nwyon a'r sylweddau peryglus allai fod yn bresennol a'r ffyrdd y dylid ymdrin â nhw
8. y dulliau gwahanol y gellir eu defnyddio ar gyfer asesu diffygion a namau gyda chyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion a nodi'r achos sylfaenol
9. diffygion a namau arferol sydd yn digwydd gyda chyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion
10. y ffactorau sy'n effeithio ar werth cyflawni'r gwasanaethu a'r atgyweirio, fel cost, amcangyfrif o fywyd gweithredol, angen brys am y cyfarpar
11. y cydrannau sydd eu hangen ar gyfer y y gweithgaredd gwasanaethu ac atgyweirio a gweithdrefnau'r cwmni ar gyfer cael amnewidiadau
12. mathau, adeiladwaith a swyddogaeth cyfarpar ymgysylltu pridd, paratoi ac amaethu a ddefnyddir i godi, symud, draenio, gwrth-droi, gwahanu, proffilio a pharatoi tir
13. mathau, adeiladwaith a gweithrediad cyfarpar sefydlu planhigion a ddefnyddir i blannu a hau
14. sut i symud ac amnewid cydrannau o gyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion
15. sut i ddatgymalu, gwasanaethu/atgyweirio ac adfer peiriannau a chyfarpar paratoi pridd, cynaeafu a sefydlu planhigion yn unol â manyleb a safonau'r cynhyrchydd
16. y dulliau a'r mecanweithiau a ddefnyddir i fesur cyfraddau gosod hadau a phlanhigion a'u graddnodi

17. achosion traul eithafol i rannau sy'n ymgysylltu â'r pridd
18. egwyddorion gweithredu a chymwysiadau peiriannau a chyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion
19. sut i osod a dilysu perfformiad cyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion yn unol â manylebau'r cynhyrchydd a gofynion y cwsmer
20. sut i ddefnyddio data i osod ac addasu cyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion i gael y perfformiad gorau posibl
21. sut i osod llwybrau a marcwyr i gyd-fynd â gweithrediadau ffermio'r cwsmer
22. effaith pridd, hadau, cnydau a'r tywydd a'u dylanwad ar osodiadau perfformiad cyfarpar
23. y dulliau o brofi cyfarpar wrth gwblhau'r gwaith i gadarnhau ei fod yn perfformio yn unol â manylebau gweithredu cyn ei ddychwelyd at y cwsmer
24. sut i ailgylchu neu waredu'r mathau gwahanol o wastraff yn gynaliadwy, yn cynnwys gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus, a achoswyd gan y gweithgaredd, yn unol â gofynion cyfreithiol ac amgylcheddol a pholisi cyffredin
25. yr effaith bosibl y gallai eich gweithgaredd ei gael ar yr amgylchedd a'r ffyrdd y gellir rheoli hyn
26. y wybodaeth y mae angen ei chofnodi, gweithdrefn y cwmni ar gyfer cadw cofnodion a gofynion deddfwriaeth diogelu data

## Geirfa

**Gallai cemegau a sylweddau peryglus gynnwys:**

- tanwydd
- olewau
- hylifau
- nwyon
- llwch
- aer cywasgedig

**Cyfarwyddiadau a manylebau:**

- darluniau/cynlluniau
- amserlenni
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP)
- Cyfarwyddiadau'r cynhyrchydd
- gofynion y cwsmer
- cyfarwyddiadau llafar

**Dulliau diagnosis:**

- archwiliadau gweledol
- profion ymarferol a gweithredol
- cyfarpar diagnostig
- systemau rheoli a monitro electronig o bell
- adolygu data technegol

Gosod cyfarpar llusgo a chodi - e.e. gosod lled cledrau, lled cwysi, uchafswm uchderau codi, sefydlogi

Cyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion - e.e. erydr, graddwyr, amaethwyr, ogedi pŵer, palwyr, gwahanwyr, tyllwyr hadau, planwyr, teclynnau is-bridd,

gosod draeniad a phibau, peiriannau rholio o phwyso

**Ynni wedi ei storio:**

- sbringiau
- tyndra strap
- pwysedd hydrolig
- gollyngiad trydanol
- gollyngiad cronnwr

## Cysylltiadau â SGC eraill

Gweler LANLEO1 Adnabod a lleihau peryglon yn yr ardal waith peirianneg ar y tir, am arweiniad ar arferion gweithio diogel.

Gweler LANLEO4 Cymhwyso egwyddorion craidd peirianneg ar y tir – egwyddorion mecanyddol, am arweiniad yn ymwneud ag egwyddorion ac arferion sylfaenol peirianneg.

Gweler LANLEO29 Monitro trosglwyddo a gosod cyfarpar ar y tir am arweiniad yn ymwneud â gofynion gweithredol.

Gweler LANLEO2 Gweithredu gweithdrefnau sefydliadol mewn peirianneg ar y tir am arweiniad yn ymwneud â chofnodi gweithdrefnol neu weinyddol ac arferion adrodd.

LANLEO19

Gwasanaethu ac atgyweirio cyfarpar paratoi pridd, amaethu a sefydlu planhigion ar y tir

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANLEO19 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Peirianneg ar y tir |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Peirianneg ar y Tir |
| **Geiriau Allweddol** | ar y tir; cyfarpar; peiriannau; aradr; graddiwr; amaethwr; ogedi pŵer; tyllwr hadau; plannwr; peiriant rholio |